# CYD-BWYLLGOR
# y
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Dyddiad : 26 Chwefror 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe**

**Awdur yr Adroddiad: Howard Sutcliffe Swyddog AHNE**

**Teitl: Fframwaith Drafft a Chylch Gorchwyl ar gyfer y Bartneriaeth AHNE (a elwid gynt yn Gyfansoddiad a Chylch Gorchwyl ar gyfer y Bartneriaeth AHNE)**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Fframwaith a Chylch Gorchwyl (Atodiad 1) Partneriaeth yr AHNE

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r ddogfen newydd wedi ei hadolygu eto gan y Gweithgor Swyddogion AHNE ar 10.9.15 ac ymgynghorwyd â'r Bartneriaeth AHNE hefyd ar 16.9.15. Ymgynghorwyd eto â'r Cyd-bwyllgor ar 22.9.15

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r Fframwaith a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bartneriaeth AHNE.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Gweler Atodiad 1 ynghlwm am y Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Diwygiedig.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Mae aelodau'r Bartneriaeth yn bartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Cynllun Rheoli. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cyfrannu tuag at lywodraethu effeithiol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae’r gost yn sero ar wahân i amser swyddogion

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler Atodiad 2.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r Swyddog AHNE wedi mynd a’r cynnig drafft i Weithgor Swyddogion yr AHNE a’r Bartneriaeth AHNE.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r prosiect hwn yn uniongyrchol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**Enw da -** Mae llywodraethu da yn elfen allweddol yn y gwaith o reoli'r AHNE.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall awdurdodau Lleol wneud trefniadau i ‘gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy gyfrwng Cyd-bwyllgor’.